



Ein cyf/Our ref : SF/VG/1251/15

6 Mai 2015

**David Rees AC**

Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Annwyl David,

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymchwiliad i berfformiad y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Mawrth lle rydych yn rhoi manylion am ymchwiliad y Pwyllgor i berfformiad Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (WAST).

Rwy'n croesawu canfyddiadau'r Pwyllgor a'r gydnabyddiaeth a roddir i'r cynnydd a wnaed gan yr holl randdeiliaid ers i *Adolygiad Strategol o Wasanaethau Ambiwllans Cymru* McClelland (2013) gael ei gyhoeddi. Rwyf hefyd yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud i adeiladu ar y cynnydd cynnar, a chyflymu'r broses o wneud gwasanaethau ambiwlans brys yn rhan allweddol o'r elfen cyn-ysbyty o'r system gofal heb ei drefnu.

Nid yw amseroedd ymateb ambiwlansys wedi bod cystal ag y byddai'r byrddau iechyd, Cydbwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys (EASC), WAST, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd, am iddo fod, dros y misoedd diwethaf. Fodd bynnag, dylid edrych ar y perfformiad yn erbyn y targed amser ymateb cenedlaethol o wyth munud dros gyfnod diweddar y gaeaf yng nghyd-destun pwysau sylweddol ar y gwasanaeth ambiwlans brys yn arwain at gynnydd o 24% yn y galwadau mwyaf difrifol o gymharu â mis Ionawr 2014.

Mae'r gwelliannau ym mherfformiad categori A a Coch 1 ar lefel genedlaethol ers mis Rhagfyr wedi fy nghalonogi, ond rwy'n cydnabod bod gwahaniaethau annerbyniol o hyd ar lefel leol. Rwy'n nodi pryderon y pwyllgor am gyflymdra'r gwelliannau mewn amseroedd ymateb, ond dylid cydnabod, ac mae wedi cael ei dderbyn yn eang, nad yw mwyafrif y galwadau i'r gwasanaeth ambiwlans angen cael ymateb mewn wyth munud. Dylai ansawdd y gofal i gleifion ar sail eu hangen clinigol fod yn ffactor allweddol bob tro.

Yn hyn o beth, mae'r gwaith moderneiddio clinigol i wasanaethau ambiwlans brys er mwyn gwella'r ffordd y caiff gofal ei ddarparu wedi bod yn elfen allweddol o raglen drawsnewid strategol WAST sy'n llunio ymateb yr Ymddiriedolaeth i adolygiad McClelland. Mae wedi arwain at ddatblygu nifer o fentrau arloesol, fel y 'ddesg glinigol' mewn canolfannau rheoli

ambiwllansys, sy'n helpu i sicrhau bod cleifion yn cael yr ymateb iawn wrth gysylltu â'r gwasanaeth ambiwlans gan gynnwys cyngor am ofal iechyd a mynediad at ystod o wasanaethau gofal amgen.

Rwy'n croesawu eich sylwadau am y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan randdeiliaid i sicrhau atebolrwydd cliriach drwy sefydlu EASC a rôl prif gomisiynydd y gwasanaethau ambiwlans. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro cynnydd yn agos ac yn gweithio gyda'r Athro McClelland, Stephen Harray a WAST i sicrhau bod gwasanaethau ambiwlans brys clinigol prydlon a theg, sy'n perfformio'n dda yn cael eu darparu i bobl Cymru.

Rwyf am droi at y casgliadau a wnaed gan y pwyllgor, ac er hwylustod, fe ymatebaf iddynt yn eu trefn.

## **Casgliad 1**

**Rhaid i'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru a'r byrddau iechyd lleol weithio gyda'i gilydd ar frys i wella amseroedd ymateb ambiwlansys brys a gwella canlyniadau i gleifion.**

**Rhaid i'r mesurau perfformiad fod yn briodol yn glinigol gan roi digon o ystyriaeth i ganlyniadau cleifion. Felly, dylai'r gwaith mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i gyhoeddi ynghylch adolygu'r mesurau ymateb ambiwlansys ddigwydd yn gyflym, o dan arweiniad clinigol, wedi'i lywio gan arfer gorau ac wedi'i gynllunio i alluogi meincnodi ar draws y DU.**

## **Derbyn**

Roedd hwn yn argymhelliad clir yn Adolygiad McClelland, ac rwy'n croesawu'r ffaith fod y pwyllgor yn cefnogi adolygu targedau amser ymateb ambiwlansys. Mae'r targed presennol o wyth munud yn seiliedig ar ddata o astudiaethau a gyhoeddwyd mwy na 40 mlynedd yn ôl a oedd yn canolbwyntio ar drin achosion o ataliadau ar y galon y tu allan i'r ysbyty yn unig. Mae'n bwysig nodi nad oedd yr astudiaethau'n ystyried mathau eraill o gyflyrau brys cyn-ysbyty, ac nid oes llawer o ymchwil empiraidd ar gael ar yr amseroedd ymateb i unrhyw fath arall o alwadau brys. Roedd yn arbennig o galonogol gweld cefnogaeth y pwyllgor i sicrhau bod cleifion yn derbyn gwasanaethau sy'n briodol i'w hangen sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus. Dylai hyn fod yn sbardun allweddol mewn ymatebion clinigol brys.

Mae'n bwysig ein bod yn parhau i ddatblygu perfformiad clinigol a chanlyniadau i gleifion fel y prif safonau ar gyfer asesu perfformiad gwasanaethau ambiwlans brys i fodloni disgwyliadau'r cyhoedd o ran bod yn atebol ac yn dryloyw.

## **Casgliad 2**

**I gynnal momentwm ac i weithio tuag at ddull system gyfan ar gyfer gofal heb ei drefnu, rhaid i bob bwrdd iechyd fod wedi ymgysylltu'n llawn â gwaith Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru drwy waith y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys yn genedlaethol, ac yn uniongyrchol gyda'r Ymddiriedolaeth yn lleol.**

**Rhaid i fyrddau iechyd ystyried yr effaith ar Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru wrth ddatblygu gwasanaethau newydd neu ystyried gwneud newidiadau i wasanaethau presennol. Rhaid i fyrddau iechyd hefyd sicrhau bod**

## **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn rhan o'r trafodaethau yn ddigon cynnar er mwyn galluogi rhoi ystyriaeth briodol i'r effaith ar ei wasanaethau.**

### **Derbyn**

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran y lefel o gyfrifoldeb ar gyfer gwasanaethau ambiwlans brys ar lefel leol ymysg byrddau iechyd. Mae hyn yn ganolog i gynnwys y gwasanaethau ambiwlans yn y system gofal heb ei drefnu. Mae'r cytundeb gynnar hwn ar gyllideb WAST ar gyfer 2015/16 yn dystiolaeth glir o'r cynnydd yn y maes hwn, ac mae'n cynrychioli newid sylweddol yn y cydweithio rhwng byrddau iechyd a'r Ymddiriedolaeth.

Mae fframwaith ansawdd a chyflawni comisiynu cydweithredol cenedlaethol y gwasanaeth ambiwlans yn ysgogi atebolrwydd a chyfrifoldeb ymhlith byrddau iechyd drwy amrywiaeth o gamau. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i bob bwrdd iechyd enwebu 'Hyrwyddwr' y Gwasanaeth Ambiwylans Brys i fod yn bwynt cyswllt i'w sefydliad er mwyn sicrhau bod y fframwaith yn rhedeg yn llwyddiannus ac yn parhau i ddatblygu. Mae grŵp cyflawni perfformiad cydweithredol sy'n adrodd yn uniongyrchol i EASC wedi cael ei sefydlu a bydd yn ystyried ac yn cynghori ar y materion rheoli a pherfformio. Bydd hyn yn cynnwys prif swyddogion gweithredu o bob bwrdd iechyd a chaiff ei gadeirio gan y Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwylans.

Mae cadeiryddion ac aelodau annibynnol byrddau iechyd yn cael diweddariadau ac adroddiadau cynnydd rheolaidd gan eu cyfarwyddwyr gweithredol eu hunain, a byddant yn gwahodd WAST i fynychu cyfarfodydd y byrddau neu is-bwyllgorau. Bydd cadeirydd EASC a phrif gomisiynydd y gwasanaethau ambiwlans yn mynychu pob cyfarfod o'r bwrdd iechyd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Bydd y fframwaith, sy'n cynnwys nifer o fesurau ar y cyd, hefyd yn galluogi WAST a byrddau iechyd i ddangos sut y byddant yn cefnogi gwelliannau i amseroedd ymateb ambiwlansys ac ansawdd y ddarpariaeth yn eu cynlluniau integredig tymor canol.

Rwyf wedi cael sicrwydd ffurfiol gan Dr CDV Jones, cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf bod pob bwrdd iechyd wedi ymrwmo i gyflawni'r amcan hwn. Gan ystyried argymhelliad y pwyllgor, byddaf yn ceisio sicrwydd pellach gan gadeiryddion byrddau iechyd bod y momentwm hyd yma wedi'u fabwysiadu ar bob lefel. Byddaf hefyd yn ceisio sicrwydd gan bob bwrdd iechyd bod eu prosesau ar gyfer sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys WAST, yn cymryd rhan mewn trafodaethau am gynigion i newid gwasanaethau yn gynnar.

### **Casgliad 3**

**Rhaid dod i gytundeb rhwng Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, undebau llafur a staff cyn gynted â phosibl o ran yr amserlenni staff diwygiedig ar gyfer y rhannau hynny o Gymru lle nad oes trefniadau diwygiedig ar waith eto.**

**Rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, gan weithio mewn partneriaeth gydag undebau llafur a'r staff, roi trefniadau ar waith i adolygu'r amserlenni staff ar gyfnodau priodol i osgoi diffyg cyfateb yn y dyfodol rhwng staffio a galw disgwylidig.**

### **Derbyn**

Mae sicrhau bod capasiti staff y rheng y flaen i gyd-fynd â'r lefelau galw disgwylidig yn ganolog i wella amseroedd ymateb ambiwlansys. Mae trefniadau newydd ar waith yn ardal

Caerdydd a'r Fro, ac mae disgwyl i'r trefniadau diwygiedig gael eu rhoi ar waith yn ardaloedd byrddau iechyd Cwm Taf ac Aneurin Bevan erbyn diwedd mis Mai.

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt mewn perthynas ag amserlenni staff yn ardaloedd Abertawe Bro Morgannwg, Betsi Cadwaladr, Hywel Dda a Phowys. Mae'r fframwaith ansawdd a chyflawni yn ei gwneud yn ofynnol i WAST beidio â bod mor ddibynnol ar staff yn gweithio oriau ychwanegol, a bydd hyn yn ei hun yn sbardun i sicrhau bod amserlenni cadarn yn eu lle ar gyfer staff y rheng flaen a'r ganolfan cyswllt clinigol. Buddsoddodd EASC £7.5m i helpu i recriwtio staff ychwanegol sy'n helpu i hwyluso'r amserlenni diwygiedig.

Mae prif gomisiynydd y gwasanaethau ambiwlans wedi comisiynu datblygu offeryn 'galw a gallu' gan Brifysgol Caerdydd, mewn cydweithrediad ag uned modelau gwelliant parhaus bwrdd iechyd Aneurin Bevan. Bydd hyn yn helpu i ragweld y galw a deall ble i roi adnoddau rheng flaen yn ystod cyfnodau o alw uchel ac isel a ragwelir mewn gweithgarwch i gefnogi defnydd effeithlon.

Bydd y Comisiynydd yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos a sicrhau bod amserlenni staff yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

#### **Casgliad 4**

**Rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru flaenoriaethu darparu gwasanaethau ambiwlans brys. Mae angen gwneud gwaith i ddod o hyd i fecanweithiau priodol ar gyfer darparu gwasanaethau cludo cleifion nad ydynt yn achosion brys, er mwyn dadgyfuno'r gwasanaethau hynny oddi wrth yr Ymddiriedolaeth yn unol ag argymhelliad 2 Adolygiad McClelland. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth gael cynllun clir ar gyfer dadgyfuno'r ddau wasanaeth, gan nodi'r costau a'r amserlen. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl cael diweddariad ar y cynllun hwn cyn gwneud y gwaith dilynol ar yr ymchwiliad hwn yn ddiweddarach eleni.**

#### **Derbyn**

Mewn ymateb i'r argymhellion a amlinellwyd yn Adolygiad McClelland, bydd y GIG yng Nghymru yn cyflwyno cynlluniau i foderneiddio'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal cleifion.

Mae cam cyntaf yr agenda moderneiddio wedi cynnwys trosglwyddo gwasanaethau cludwyr iechyd o WAST i Bartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG. Mae'r broses drosglwyddo wedi bod yn llwyddiannus a dechreuodd y gwasanaeth newydd ar 1 Ebrill 2015. Roedd gwaith caled pawb a oedd yn rhan o'r broses fanwl o drefnu'r trosglwyddiad wedi sicrhau na amharwyd o gwbl ar y gwasanaeth.

Mae trosglwyddo unrhyw fath o drafnidiaeth i gleifion nad ydynt yn achosion brys o WAST yn fwy cymhleth. Rydym am wneud yn siŵr nad yw unrhyw newidiadau arfaethedig yn ansefydlogi'r ddarpariaeth o wasanaethau ambiwlans brys, nac yn eu rhoi yn y fantol. Yn hyn o beth, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda GIG Cymru a WAST ar gynlluniau i foderneiddio trafndiaeth i gleifion nad ydynt yn achosion brys.

Mae bwrdd y prosiect yn ystyried nifer o opsiynau ar gyfer moderneiddio trafndiaeth i gleifion nad ydynt yn achosion brys. Fel rhan o'r gwaith hwn, rwyf wedi egluro fy mod yn disgwyl i'r bwrdd ystyried ffyrdd o weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol a

darparwyr eraill i wella effeithlonrwydd ar draws y sector cyhoeddus, gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus.

## **Casgliad 5**

**Rhaid i'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a'r byrddau iechyd lleol weithio gyda'i gilydd i leihau nifer yr oriau coll o ganlyniad i oedi wrth drosglwyddo cleifion. Rhaid gweithredu'r polisi trosglwyddo newydd yn gyson ledled Cymru, a rhaid datrys unrhyw faterion a gaiff eu nodi yn ymweliadau dilynol y prif weithredwr ac arweinydd ar ofal heb ei drefnu yn gyflym.**

### **Derbyn**

Mae oedi hir wrth drosglwyddo cleifion yn hollol annerbyniol.

Mae canllawiau cenedlaethol ysbytai ar drosglwyddo cleifion yn ddatganiad clir o fwriad sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel i dimau'r ysbyty o fewn 15 munud. Mae'r canllawiau'n nodi 10 cam allweddol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau eu cynnwys yn eu protocolau presennol i sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo'n brydlon. Ymddengys bod y cyfnodau oedi yn dechrau lleihau yn y mwyafrif o adrannau brys. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer mis Mawrth yn dangos bod gostyngiad o 23% wedi bod yn nifer y cleifion sy'n aros am dros awr i gael eu trosglwyddo, ers mis Rhagfyr 2014.

## **Casgliad 6**

**Dylai Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwylans, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru fynd i'r afael ar frys gyda'r broblem o ambiwlansys yn cael eu tynnu i ffwrdd o'u hardaloedd. Wrth wneud hynny, dylent geisio canfod arfer gorau ledled y DU a dysgu ohono. Dylid blaenoriaethu archwilio'r cynllun peilot 'dychwelyd at ôl-troed' ar sail ehangach a'i werthuso.**

### **Derbyn**

Rydym yn disgwyl darpariaeth gwasanaeth ambiwlans brys mor deg â phosibl i bawb yng Nghymru, waeth ble maent yn byw, gyda'r lefelau gofynnol o staff rheng flaen i helpu i ymateb yn effeithiol ac yn amserol bob tro. Rydym hefyd yn disgwyl i'r adnodd clinigol iawn gael ei anfon gan WAST yn seiliedig ar angen y claf.

Gall y targed presennol o wyth munud ysgogi ymddygiad gwrthnysig wrth i sawl criw ac ambiwlans gael eu hanfon er mwyn cyrraedd y targed hwn. Mae gwella'r ffordd y mae adnoddau brys yn cael eu defnyddio i gyflawni'r canlyniad gorau posibl i gleifion yn rhan o gynlluniau y gwasanaeth ar gyfer moderneiddio clinigol.

Mae cynllun peilot 'dychwelyd at ôl-troed' yn mynd rhagddo yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, sydd wedi arwain at gynnydd mewn amseroedd ymateb sy'n cyd-fynd â dechrau'r cyfnod treialu. Mae prif gomisiynydd y gwasanaethau ambiwlans wedi sefydlu panel gwelliannau a sicrhau ansawdd sy'n adrodd i EASC a bydd yn adolygu ac yn gwerthuso mentrau gwella gwasanaethau fel y cynllun peilot yng Nghwm Taf. Mae aelodau'r panel yn cynnwys uwch-arweinwyr clinigol ac academyddion amlwg.

## Casgliad 7

**Wrth ddarparu gofal heb ei drefnu, rhaid i fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ystyried anghenion unigol y claf. Rhaid i fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru sicrhau bod asesiadau, gofal a thriniaeth yn cael eu darparu mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion unigol y claf, ac yn eu helpu i gyflawni'r canlyniad gorau posibl iddynt. Dylai hyn gynnwys defnydd priodol o asesu, gofal a thriniaeth wedi'u darparu yn y gymuned, yn ogystal â darpariaeth mewn ysbyty.**

### Derbyn

Rwy'n croesawu casgliad y Pwyllgor bod angen gwneud mwy ar y cyd i drin cleifion mor agos i'r cartref â phosibl, gan ganolbwyntio ar anghenion unigol cleifion i osgoi gorfod cael eu cludo yn ddiangen gan ambiwlans brys i'r ysbyty. Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol i Gymru i helpu i ysgogi hyn.

Yn seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd darbodus a'r rheini yn y cynllun gofal sylfaenol, mae'r llwybr gofal cleifion ambiwlans pum cam yn y fframwaith ansawdd a chyflawni yn disgrifio disgwyladau EASC am sut y dylai'r gwasanaeth ambiwlans ddarparu gwasanaethau i bobl Cymru. Mae disgwyl i WAST fodloni cyfres o ofynion craidd, mesurau ansawdd a dangosyddion clinigol a ddisgrifir o dan pob un o'r pum cam.

Mae'r llwybr gofal cleifion ambiwlans pum cam yn amlinellu'n glir bod gwasanaeth ambiwlans brys WAST yn wasanaeth clinigol o fewn y system gofal iechyd integredig ehangach yng Nghymru, ac mae'n rhan o ddull aml-asiantaethol, cydweithredol rhwng byrddau iechyd a WAST i ddatblygu gwasanaethau clinigol cyn-ysbyty, sy'n perfformio'n dda. Ei ddiben yw sicrhau bod cleifion yn cael y gofal iawn ar yr amser iawn gan y clinigwr iawn i sicrhau'r canlyniad gorau i bob claf.

Mae llawer wedi cael ei wneud fel rhan o'r gwaith moderneiddio clinigol i'r gwasanaethau ambiwlans brys i wella'r broses o asesu cleifion yn y gymuned drwy ddatblygu nifer o fentrau a dulliau. Mae ymgynghorwyr adrannau brys a pharafeddygon yn brysbennu galwadau y gellid ymdrin â nhw yn well yn nes at y cartref o bosibl. Ochr yn ochr â hyn, mae'r *Manchester Triage System* wedi cael ei chyflwyno i ganolfannau cyswllt clinigol i wneud asesiad clinigol gwell o gleifion. Mae WAST hefyd wedi gweithredu offeryn Braenaru Parafeddygon. Mae hyn galluogi amrywiaeth o brosesau brysbennu seiliedig ar dystiolaeth sy'n ddiogel, cyson ac yn glinigol ddiogel i gael eu defnyddio, sy'n galluogi parafeddygon i gynnal asesiadau cywir wyneb yn wyneb o anghenion gofal claf unigol, pan maent yn cyrraedd y lle, gan eu galluogi i gyfeirio at leoliadau gofal iechyd eraill yn y gymuned lle mae'n briodol.

Mae modd trin cleifion sydd wedi dod dros bwl o epilepsi neu hypoglycaemia, neu gleifion sydd wedi cwmpo drwy WAST ym mhob ardal bwrdd iechyd, lle mae miloedd o gleifion yn cael eu cyfeirio yn ddiogel at leoliad gofal iechyd priodol ar wahân i ysbyty.

Mae'r rhain, a mentrau tebyg, wedi arwain at gyfraddau WAST ar gyfer cleifion na chafodd eu cludo gan ambiwlans sydd bellach ymhlith yr uchaf yn y DU, gan gadw capasiti gofal brys gwerthfawr i ymateb i gleifion sydd ag angen clinigol am ymateb cyflym, ac ysgafnhau pwysau ar Adrannau Brys.

## Casgliad 8

**Rhaid i wasanaethau ambiwlans yn y tymor canolig a'r tymor hwy berfformio'n dda gan gyd-fynd â'r galw. Felly, dylai byrddau iechyd, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru wneud gwaith blaengynllunio cadarn ac effeithiol sy'n ystyried newidiadau demograffig a ragwelir.**

## **Derbyn**

Rwy'n croesawu casgliad y pwyllgor bod cael strategaeth recriwtio effeithiol a chynlluniau cadarn ar gyfer y capasiti sydd ei angen i fodloni'r galw a ragwelir, yn hanfodol ar gyfer gwasanaeth ambiwlans brys sy'n perfformio'n dda. Mae cynllunio ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hwy yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn.

Mae disgwyl i WAST ddarparu cynllun tymor canolig integredig y mae'n rhaid iddo ystyried newid demograffig, datblygiadau yn y gwasanaeth, anghydraddoldebau iechyd, anghenion gofal sylfaenol ynghyd â gofynion clinigol penodol fel iechyd meddwl ac ystyriaethau iechyd mamolaeth a phlant. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu bwriad sefydliadau, eu blaenoriaethau a'r ddarpariaeth ddisgwyliedig ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cynlluniau hyn i lywio trafodaethau am ansawdd a rheoli perfformiad drwy gydol y flwyddyn.

Yn gywir



**Vaughan Gething AC / AM**  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd  
Deputy Minister for Health